**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ken Skates AC

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

13 Mehefin 2019

Annwyl Ken,

**Cronfa i gefnogi newyddion hyperleol**

Dyma ysgrifennu i ofyn am ragor o fanylion am y gronfa i gefnogi newyddion hyperleol. Bwriad y gronfa, a lansiwyd ym mis Mawrth, yw cefnogi 'newyddiadurwyr sydd am sefydlu eu busnesau eu hunain ym maes newyddion hyperleol' a 'datblygu sgiliau a rhwydweithiau' i 'helpu i gynnal a thyfu'r sector, gan alluogi newyddiadurwyr hyperleol i ehangu eu cwmpas a'u cyrhaeddiad o fewn eu cymunedau.'

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld y gronfa'n llwyddo ac yn cyflawni'r argymhellion yn ein hadroddiad 'Y Penawdau'. Yn ddiweddar, mae pobl sy'n gweithio yn y sector wedi cysylltu â mi i'm hysbysu bod y broses i wneud cais am arian yn un gymhleth ac mae'n bosibl y bydd pobl yn diflasu arni.

Beth yw'r meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau, a beth yw'r broses ar gyfer penderfyniadau?  A allwch chi amlinellu sut mae'r gronfa'n cael ei hyrwyddo i'r sector?  A gaiff y gronfa ei hadolygu, ac, os felly, a fyddwch chi'n gofyn am farn y sector i weld sut y gellir ei gwella?

Rwy'n pryderu am yr adborth a gefais am y gronfa, sef ei bod yn ei defnyddio ac nad yw wedi cael ei hyrwyddo'n dda.  Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb fy llythyr erbyn 9 Gorffennaf i ganiatáu imi ymateb i'r bobl sydd wedi cysylltu â mi.

Yn gywir,

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref/Ein cyf: MA-P-KS-2398-19

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

9 Gorffennaf 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mehefin yn holi am fwy o fanylion am y gronfa i gefnogi newyddion lleol iawn.

Aeth y (Gronfa) Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol yn fyw ar 1 Ebrill i gynnig cyllid grant refeniw i gyhoeddiadau cymunedol annibynnol, a elwir hefyd yn gyhoeddiadau lleol iawn, yng Nghymru, i gefnogi cynaliadwyedd, datblygiad a thwf eu cyhoeddiad. Mae'r Gronfa ar gael yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.

Mae'r Gronfa wedi ei hanelu at gyhoeddiadau cymunedol annibynnol yng Nghymru, sydd wedi gweithredu o fewn eu cymuned yng Nghymru am 6 mis o leiaf, ac sy'n aelodau o'r Independent Community News Network (ICNN).

Mae'r gweithgarwch cymwys yn cynnwys camau i wella prosesau busnes; cynyddu ffrydiau incwm; cynyddu nifer y darllenwyr; gwelliannau technegol; defnyddio arbenigedd ddigidol; a hyfforddiant. Mae costau cyflog am dri mis hefyd yn gymwys. Nid dyma'n unig sy'n gymwys a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithgareddau eraill fydd yn sicrhau mwy o gadernid a chynaliadwyedd neu dwf busnesau os oes tystiolaeth ddigonol. Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer refeniw yn unig, felly nid yw gwariant cyfalaf megis offer yn gymwys.

Cafodd y Gronfa ei hyrwyddo i'r sector drwy ddatganiad i'r wasg, sianelau y cyfryngau cymdeithasol a Busnes Cymru, a byddwn yn parhau i dynnu sylw at y Gronfa ar y cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, mae'r Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol (C4CJ) wedi hyrwyddo'r Gronfa ymysg eu haelodau o'r ICNN, y rhwydwath, a'r sector yn ehangach.

Nid yw'r broses ymgeisio yn gymhleth ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu manylion byr am eu cyhoeddiad, cadarnhad eu bod yn gymwys a manylion yr hyn y caiff y cyllid ei ddefnyddio ar ei gyfer. Mae fy Swyddogion ar gael i drafod ceisiadau a chymhwysedd cyn cyflwyno'r cais ac wrth law i arwain ymgeiswyr drwy'r broses.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes cyfyngu ar faint o grant y gellir gwneud cais amdano, yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy ac ystyriaethau gwerth am arian. Hefyd, mae'n bosibl gwneud ceisiadau niferus yn ystod y cyfnod o 12 mis i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gynnal prosiectau dilynol llai ac i helpu i reoli llif arian. Gellir gwneud ôl-daliadau neu dalu ymlaen llaw, a hefyd daliadau llai fesul cam.

Gan bod cyfyngu ar faint o arian sydd ar gael, caiff ceisiadau eu gwerthuso fesul achos gan Banel Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac yn cael ei ystyried yn werth am arian. Er mwyn helpu gyda'r broses werthuso, mae pob ymgeisydd cymwys wedi cydsynio i'w cais gael ei rannu gyda'r C4CJ. Mae'r C4CJ yn gweithredu fel cynghorwyr arbenigol ym maes newyddiaduraeth leol iawn i gynnig sylwadau ar y gweithgareddau arfaethedig; fodd bynnag nid ydynt yn rhan o'r broses gymeradwyo.

Bydd pob dyfarniad grant yn cael ei fonitro wedi chwe mis a chaiff effaith y grant ei werthuso wedi 12 mis. Bydd y gwerthusiad yn asesu sut y cafodd y grant effaith ar y cyhoeddiadau a'r sector, a bydd yn llywio unrhyw gyllid posibl yn y dyfodol. Hefyd, caiff darn annibynnol o ymchwil ei gynnig gan yr Athro Karin Wahl-Jorgensen o'r C4CJ i edrych ar sut y gallai'r Gronfa gael effaith ar bolisi, fydd yn cynnwys cyfweliadau â'r sector yng Nghymru.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport